Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl437

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Cyllid ar gyfer Prosiect Newid y Gêm

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Cysylltodd Prosiect Newid y Gêm â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gofyn am gyfraniad 12 mis o £19,593.00 tuag at eu rhaglen Cyflawni.

Mae'r rhaglen hon yn cefnogi pobl ifainc 14–18 oed ym Mhowys sydd wedi'u datgysylltu, neu sydd mewn perygl o ddatgysylltu, oddi wrth addysg. Bydd Cyflawni yn adeiladu ar gynllun peilot llwyddiannus a gyflwynwyd yn ystod yr hydref yn 2025. Drwy'r cynllun peilot hwn, mae llwybrau cyfeirio wedi'u sefydlu gyda phartneriaid perthnasol, gan gynnwys plismona lleol.

Bydd y prosiect yn cefnogi pobl ifainc agored i niwed sydd wedi profi trawma, hunan-barch isel, iechyd meddwl gwael, caethiwed/iechyd rhieiniol, gwaharddiad o'r ysgol, trafferthion ariannol ac ynysu cefn gwlad sy'n arwain at berygl uwch o gamfanteisio rhywiol, llinellau cyffuriau, cam-drin, ac aflonyddu rhywiol.

Bydd y prosiect yn gweithio gyda'r Heddlu a phartneriaid er mwyn cyflwyno gweithgareddau sy'n hyrwyddo dinasyddiaeth ac yn cynnig dargyfeiriad rhag gweithgarwch troseddol.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef atal niwed.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £19,593.00 o'r Gronfa Arloesedd i'r prosiect Newid y Gêm tuag at weithgarwch sy'n ymwneud â'u rhaglen Cyflawni.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 17/12/2025**